# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod Brys 03.09.2024

Presennol: Eirian Hoyle, Heulwen Parry, Meredydd Williams, Eurwyn Jones, Gareth Jones,

Ymddiheuriadau: Lynda Massarelli, Elfed Roberts

Datgan Diddordeb: Elfed Roberts yn datgan diddordeb gyda Cais Cynllunio Rhif NP5/73/LB208B Drwy ebost.

EHoyle 8/10/24

**4. Materion i'w trafod.**

4.237 Plas Tan y Bwlch - Clerc i anfon llythyr yn gwrthwynebu gwerthiant Plas Tan y Bwlch.

4.238 Pasiwyd i anfon ebost at sylw Elfed Roberts.

4.239 Cysylltu ac Allianz i ofyn os ydynt yn gwneud asesiad risg ar wahân i gaeau chwarae, e.e Gofeb a Fynwent.

4.240 Cytunwyd i ofyn i Richard jones dorri gwair y Fynwent, hefyd i dorri unwaith y mis o fis Ebrill i fis Medi.

4.241 Adroddiad wedi ei dderbyn gan Heulwen Parry ar gynhigion gan gynrychiolydd cwmni Hochtief a Megan Thorman, y Dref Werdd, pasiwyd i fynd ymlaen gyda'r gwaith yn y Gofeb. Clerc i anfon ebost i Ben o Hochtief. Cytunwyd i godi plac i ddiolch am y gwaith sydd wedi cael ei wneud yno.

4.242 Trefn Cyfathrebu rhwng aelodau'r Cyngor - Fe roedd y Cadeirydd yn awyddus i gael trefn cyfathrebu mewn lle.

Mae'r Cadeirydd yn methu bod yn bresennol mewn aml i gyfarfodydd safle yn sgil ei gwaith bob dydd. Fe roedd yn awyddus fod yr aelodau oedd yn bresennol mewn cyfarfodydd safle yn penodi aelod i adrodd yn ôl yn fyr i'r Cadeirydd a hynny yn gofnod byr dros ebost, neges testun neu dros ffôn yn ei hysbysu o drafodaeth a beth a baswiyd fel ei bod yn gwybod o unrhyw gefndir pe bai rhywyn yn cysylltu a unrhyw fater cyn y byddai cyfarfod llawn yn cael ei gynnal. Hefyd byddai y clerc yn gallu cynnwys y cofnod yma o drafodaeth safle yn y cofnodion.

**6. Cynllunio**

Dim gwrthwynebiad i'r cais canlynol.

6.73 Cais NP5/73/LB208B - 1 Fron Fair, Maentwrog : Caniatâd Adeilad Rhestredig i gadw gwaith allanol a mewnol gan gynnwys gosod drysau allanol newydd a ffenestri gwydr dwbl tenau newydd, gosod ffenestri to cefn newydd a gwaith mewnol gan gynnwys ailblastro waliau a nenfydau, ailosod arwynebedd llawr gwaelod solet ac ailosod unedau cegin.

Dyddiad cyfarfod nesaf: 8fed o Hydref, Neuadd y Pentref, am 6.30 o'r gloch.



CamScanner